
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Farchynys, Afon Mawddach

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

Pellter: 2km (1.2 milltir)

Hyd: 1 awr


Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20240724/1436





Cychwynnwch o’r maes parcio, gyda’ch cefn yn wynebu’r ffordd. Dilynwch y llwybr i'r dde. Cymerwch saib yma i edmygu’r fainc Awyr Dywyll.




Pan mae’r llwybr yn fforchio, trowch i’r dde i fynd i’r olygfan. Yno, gallwch weld pont Abermaw a’r olygfa hardd o aber y Fawddach.





Dilynwch eich camau yn ôl o’r olygfan a phan fydd y llwybr yn fforchio, trowch i’r dde.





Pan gyrhaeddwch drac llydan, trowch i’r dde. Mae’r gors a welwch ar y chwith dan ddŵr pan fydd y llanw’n uchel.





Byddwch yn cyrraedd giât gyda chamfa y tu draw iddi. Peidiwch â mynd dros y gamfa. Ewch i’r dde gan ddilyn ymyl y ffens i fyny’r goedwig.





Pan mae’r llwybr yn fforchio, trowch i’r chwith.




Pan gyrhaeddwch ffens, trowch i’r chwith i fynd i’r olygfan gan edmygu’r golygfeydd hyfryd.




Dilynwch eich camau yn ôl o’r olygfan. Ewch yn ôl at y ffens, trowch i’r dde a dilynwch y llwybr yn ôl i lawr at y gamfa a’r giât ger y gors.




Pan gyrhaeddwch y gamfa, ewch i’r chwith gan ddilyn y trac. Byddwch yn mynd trwy giât arall cyn cyrraedd yn ôl i’r maes parcio.